



Ein cyf: ATISN 12948
Dyddiad: 6 Mawrth 2019

Annwyl

Cais am wybodaeth, cyfeirnod ATISN 12948

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 6 Chwefror 2019.

Gofynasoch am y canlynol:

Dan y Ddeddf Rhyddid Wybodaeth, hoffwn weld unrhyw ohebiaeth, gan gynnwys negeseuon e-bost, gan weinidogion a swyddogion yn trafod cerflun arfaethedig Rhodri Morgan.

Mae'r wybodaeth y gofynnoch amdani wedi'i hamgáu, ond mae rhywfaint o'r wybodaeth o fewn cwmpas y cais wedi'i dal yn ôl o dan adran 40 (2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gan ei bod yn wybodaeth bersonol. Ceir esboniad o'r modd y cymhwysir yr esemptiad hwn yn Atodiad A.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Adran 40 (2) - gwybodaeth bersonol

Mae Adran 40 (2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi eithriad o'r hawl i wybod os yw'r wybodaeth y gofynnir amdani yn wybodaeth bersonol am berson heblaw'r ymgeisydd, sy'n cael ei diogelu gan Ddeddf Diogelu Data 2018 neu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Diffinnir data personol yn Adran 3 (2) o'r Ddeddf Diogelu Data fel a ganlyn:

“Personal data” means any information relating to an identified or identifiable living individual

Mae rhywfaint o'r wybodaeth o fewn cwmpas y cais hwn wedi'i heithrio o dan adran 40 (2) o'r Ddeddf Rhyddid gwybodaeth. O dan Adran 40 (2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae data personol wedi'u heithrio rhag cael eu rhyddhau pe byddai datgelu'r wybodaeth yn golygu torri'n o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Erthygl 5 o'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ac adran 34(1) o'r Ddeddf Diogelu Data. Rydym yn ystyried mai'r egwyddor fwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw'r gyntaf a nodir.

Egwyddor gyntaf y GDPR.

Mae hyn yn nodi:

.....that personal data shall be:

- a) processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject;

Rydym o'r farn bod yr wybodaeth a amlygwyd yn perthyn i'r disgrifiad o ddata personol fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Diogelu Data ac y byddai ei datgelu yn torri'r egwyddor diogelu data gyntaf. Mae arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Gwybodaeth bersonol (adran 40 a rheoliad 13) f 1.4) yn nodi:

Os na fyddai datgelu'r wybodaeth yn deg, yna mae'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu.

Cafodd y dull hwn ei gymeradwyo gan y Llys Apêl yn achos Deborah Clark v y Comisiynydd Gwybodaeth a Chyngor Dosbarth Dwyrain Swydd Hertford lle cafodd ei gynnal:

“The first data protection principle entails a consideration of whether it would be fair to disclose the personal data in all the circumstances. The Commissioner determined that it would not be fair to disclose the requested information and thus the first data protection principle would be breached.” (paragraff 63).

Yn fy marn i, byddai rhyddhau'r wybodaeth o fewn cwmpas y cais hwn yn annheg ac felly byddai'n torri'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data. Ni fyddai disgwyl i weision sifil neu unigolion sy'n gweithio i Gomisiwn y Cynulliad gyhoeddi eu gwybodaeth bersonol yn gyhoeddus, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau arferol.

Am y rheswm hwnnw, mae'r wybodaeth yn cael ei chadw'n ôl o dan adran 40 (2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae hwn yn eithriad absoliwt ac nid yw'n destun profion lles y cyhoedd.